Cyngor Meddygol Cyffredinol

**Diweddarwyd y cyfeiriadau at *Arfer meddygol da* ym mis Mawrth 2013**

# Creu a defnyddio recordiadau sain a gweledol o gleifion

**1** Yn ein harweiniad *Gwneud penderfyniadau a chaniatâd*, rydym yn nodi:

> **2** 8 Mae cyfnewid gwybodaeth rhwng meddyg a chlaf yn rhan ganolog o wneud penderfyniadau da. Yn ystod y broses hon y gallwch ddarganfod yr hyn sy'n bwysig i'r claf, fel y gallwch nodi'r wybodaeth y bydd angen iddynt ei chael er mwyn gwneud y penderfyniad.
>
> 9 Diben y deialog yw:
>
> **a** helpu'r claf i ddeall eu rôl nhw yn y broses, a'u hawl i ddewis a ydynt yn mynd i gael triniaeth neu ofal neu beidio
>
> **b** sicrhau bod y claf yn cael y cyfle i ystyried gwybodaeth berthnasol a allai ddylanwadu ar eu dewis rhwng y dewisiadau sydd ar gael
>
> **c** ceisio dod i ddealltwriaeth a rennir o ddisgwyliadau a chyfyngiadau'r dewisiadau sydd ar gael.

**2** Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd*: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion, rydym yn dweud:

> 1 Mae ymddiriedaeth yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng meddyg a chlaf ac mae cyfrinachedd yn ganolog i hyn. Efallai y bydd cleifion yn osgoi ceisio help meddygol neu efallai na fyddant yn rhoi disgrifiad llawn o'u symptomau os byddant yn credu y bydd meddygon yn datgelu eu gwybodaeth bersonol heb eu caniatâd, neu os na fyddant yn cael y cyfle i gael rhywfaint o reolaeth dros yr amseru neu swm y wybodaeth a rennir.
>
> 2 Mae dyletswyddau moesegol a chyfreithiol ar feddygon i ddiogelu gwybodaeth cleifion rhag cael ei datgelu mewn ffordd amhriodol. Ond mae rhannu gwybodaeth briodol yn rhan hanfodol o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gall cleifion fod mewn perygl os na fydd modd i'r rhai sy'n darparu eu gofal droi at wybodaeth berthnasol a manwl, a'r wybodaeth ddiweddaraf, amdanynt.
>
> 3 Yn ogystal, ceir defnydd pwysig o wybodaeth cleifion at ddibenion ac eithrio dibenion gofal uniongyrchol. Mae rhai o'r rhain yn gysylltiedig â gofal cleifion mewn ffordd anuniongyrchol gan eu bod yn galluogi gwasanaethau iechyd i weithredu mewn ffordd effeithlon a diogel. Er enghraifft, defnyddir symiau mawr o wybodaeth cleifion at ddibenion megis gwaith ymchwil meddygol, cynllunio gwasanaethau ac archwilio ariannol. Nid yw mathau eraill o ddefnydd yn gysylltiedig â darparu gofal iechyd yn uniongyrchol, ond maent yn cynnig budd ehangach i'r cyhoedd, megis datgeliadau am resymau sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd.
>
> 4 Mae rolau meddygon yn parhau i esblygu a newid. Mae'n debygol y bydd yn fwy heriol sicrhau bod sail gyfreithiol a moesegol dros ddefnyddio gwybodaeth cleifion mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth nag yng nghyd-destun perthynas unigol rhwng meddyg a chlaf.

3 Diben yr arweiniad esboniadol hwn yw cynnig cyngor manylach ynghylch sut i gydymffurfio gyda'r egwyddorion hyn wrth greu neu ddefnyddio recordiadau sain a gweledol o gleifion.

4 Er mwyn cynnal eich trwydded i wneud gwaith meddygol, rhaid i chi ddangos, trwy'r broses ailddilysu, eich bod yn gweithio yn unol 'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodir yn yr arweiniad hwn. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein harweiniad, sy'n peryglu diogelwch y cyhoedd neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon, fydd yn peryglu'ch cofrestriad.

## Cwmpas yr arweiniad hwn

5 Mae'r arweiniad hwn yn ymdrin â recordiadau sain a gweledol o gleifion, sy'n cael eu creu dan unrhyw amgylchiadau pan fo meddygon yn gwneud gwaith proffesiynol.[1] Mae hyn yn cynnwys:

- recordiadau sy'n cael eu creu mewn safleoedd gofal iechyd[2] yn y DU neu y tu hwnt i'r DU, a/neu
- recordiadau sy'n cael eu creu fel rhan o'r broses o asesu cyflwr neu salwch claf, o ymchwilio i gyflwr neu salwch claf, neu o drin cyflwr neu salwch claf, a/neu
- recordiadau sy'n cael eu creu at ddibenion megis addysgu, hyfforddi neu asesu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a myfyrwyr, ymchwil, neu at ddefnydd arall sy'n ymwneud ag iechyd, ac nad ydynt er mwyn cynnig budd uniongyrchol i'r claf, a ddisgrifir fel 'dibenion eilaidd' yn yr arweiniad hwn.

6 Yn yr arweiniad hwn, mae 'recordiadau' yn golygu recordiadau sain, ffotograffau a delweddau gweledol gwreiddiol eraill o gleifion, a allai gael eu creu gan ddefnyddio unrhyw ddyfais recordio, gan gynnwys ffonau symudol, neu gopïau ohonynt. Nid yw'n ymdrin â chopïau o gofnodion ysgrifenedig.

### Sleidiau patholeg

7 Nid yw 'recordiadau' yn yr arweiniad hwn yn cynnwys sleidiau patholeg sy'n cynnwys meinweoedd dynol (sydd ar wahân i ddelwedd o sleid o'r fath). Gallai ffotograffau o sleidiau microsgop gael eu gwneud heb ganiatâd at ddiben gofal neu driniaeth claf, neu at ddiben eilaidd, os ydy'r sleidiau'n ddienw neu wedi'u codio3 cyn iddynt gael eu defnyddio at ddiben eilaidd, ac yn ddienw bob amser cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n gyhoeddus. Lle gwneir ffotograffau o sleidiau patholeg at ddibenion eilaidd yn ystod archwiliad post-mortem, dylech ddilyn y cyngor ym mharagraff 51.

## Egwyddorion

8 Wrth greu neu ddefnyddio recordiadau, rhaid i chi barchu preifatrwydd ac urddas cleifion, a'u hawl i wneud neu i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gyflawni'r camau canlynol:

- rhoi gwybodaeth i gleifion y maent yn dymuno'i chael, neu y mae angen iddynt ei chael, ynghylch diben y recordiad
- creu recordiadau ar ôl sicrhau caniatâd priodol neu awdurdod dilys arall i wneud hynny
- sicrhau na fydd cleifion dan unrhyw bwysau i roi eu caniatâd i'r recordiad gael ei greu
- pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, stopio'r recordiad os bydd y claf yn gofyn i chi wneud hynny, neu os bydd y recordiad yn cael effaith niweidiol ar yr ymgynghoriad neu'r driniaeth
- sicrhau na fydd recordiadau yn cynnwys enwau unigolion cyn eu defnyddio neu eu datgelu at ddiben eilaidd, neu sicrhau bod cod yn cael ei osod ar eu cyfer os bydd yn ymarferol gwneud hynny ac os bydd hyn yn cyflawni'r diben

- sicrhau caniatâd neu awdurdod dilys arall cyn datgelu neu ddefnyddio recordiadau y bydd modd adnabod cleifion unigol ohonynt
- gwneud trefniadau diogel priodol er mwyn storio recordiadau
- bod yn gyfarwydd gyda'r gyfraith[4] ac arweiniad a gweithdrefnau lleol sy'n berthnasol lle'r ydych yn gweithio, a'u dilyn.[5]

**9** Ac ni ddylech:

- greu neu gymryd rhan mewn gweithgarwch i greu recordiadau yn erbyn dymuniadau claf, neu pan allai recordiad beri niwed i'r claf
- datgelu neu ddefnyddio recordiadau at ddibenion y tu hwnt i gwmpas y caniatâd gwreiddiol heb sicrhau caniatâd pellach (ac eithrio dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraffau 10 a 15-17).

## Recordiadau fel rhan o ofal, ymchwiliad neu driniaeth claf

### Recordiadau na fydd angen sicrhau caniatâd ar wahân ar eu cyfer

**10** Bydd caniatâd i greu'r recordiadau a restrir isod yn ensyniedig yn y caniatâd a roddir i'r ymchwiliad neu'r driniaeth, ac ni fydd angen ei sicrhau ar wahân.

- Delweddau o strwythurau neu organau mewnol
- Delweddau o sleidiau patholeg
- Delweddau laparosgopig ac endosgopig
- Recordiadau o weithrediadau organau
- Delweddau uwchsain
- pelydrau-X

**11** Wrth geisio caniatâd ar gyfer triniaeth neu unrhyw weithdrefn[6] arall sy'n golygu y bydd angen creu un o'r recordiadau a restrir ym mharagraff 10, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, dylech esbonio y bydd recordiad o'r fath yn cael ei greu ac y gallai gael ei ddefnyddio at ddibenion eilaidd, gan gynnwys ei gyhoeddi i'r cyhoedd, heb iddo gynnwys enw'r unigolyn.

**12** Gallwch ddatgelu neu ddefnyddio unrhyw rai o'r recordiadau a restrir ym mharagraff 10 at ddibenion eilaidd heb geisio caniatâd, ar yr amod eich bod yn sicrhau, cyn iddynt gael eu defnyddio, na fyddant yn nodi enw'r unigolyn; er enghraifft, trwy gael gwared ar neu bennu cod ar gyfer unrhyw farciau a allai ddatgelu enw'r unigolyn, megis ysgrifen ar ochr pelydr-x (gweler paragraff 17). Mae modd cael cyngor pellach ynghylch sicrhau na fydd gwybodaeth yn cynnwys enw unigolyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.[7]

### Recordiadau y bydd angen sicrhau caniatâd penodol ar eu cyfer

#### Caniatâd i greu recordiadau fel rhan o ofal y claf

**13** Rhaid i chi sicrhau caniatâd y claf i greu recordiad sy'n rhan o'r ymchwiliad neu driniaeth ar gyfer cyflwr, neu sy'n cyfrannu at ofal y claf, ac eithrio dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 10. Dylech esbonio i'r claf y rheswm pam y byddai recordiad yn cynorthwyo gyda'u gofal, ffurf y recordiad, a'r ffaith y bydd yn cael ei storio mewn man diogel.

**14** Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, dylech esbonio unrhyw ddefnydd eilaidd posibl a allai gael ei wneud o'r recordiad mewn ffordd ddienw neu gan ddefnyddio cod, wrth geisio caniatâd i greu'r recordiad. Dylech gofnodi elfennau allweddol y drafodaeth yng nghofnod meddygol y claf.

### Datgelu a defnyddio recordiadau sy'n cael eu creu fel rhan o ofal y claf

**15** Mae recordiadau sy'n cael eu creu fel rhan o ofal y claf yn rhan o'r cofnod meddygol, a dylid eu trin yn yr un modd ag y bydd deunydd ysgrifenedig yn cael ei drin, o ran diogelwch a phenderfyniadau ynghylch datgeliadau. Felly, rhaid i chi ddilyn arweiniad CMC sy'n ymddangos yn *Cyfrinachedd*. Fel arfer, bydd angen i chi sicrhau caniatâd y claf cyn datgelu recordiadau y bydd modd adnabod y claf ohonynt (gweler paragraff 17). Ond, efallai y bydd modd gwneud datgeliadau pan fyddant yn ofynnol dan y gyfraith, os bydd barnwr neu swyddog llywyddol arall mewn llys barn yn rhoi cyfarwyddyd y dylid eu datgelu, neu os bydd modd cyfiawnhau hynny er budd y cyhoedd.

**16** Bydd modd cyfiawnhau datgeliadau er budd y cyhoedd pan fo'r budd i unigolyn neu i gymdeithas o ddatgelu yn drech na'r budd i'r claf ac i'r cyhoedd o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Rhaid i chi bwyso'r niwed sy'n debygol o ddigwydd o beidio datgelu gwybodaeth, yn erbyn y niwed posibl i'r claf ac i'r ymddiriedaeth gyffredinol rhwng meddygon a chleifion, sy'n codi o ryddhau'r wybodaeth. Rhaid i chi wneud asesiad ar wahân ym mhob achos, gan ystyried cynnwys arfaethedig y recordiad, y ffordd y bydd yn cael ei ddefnyddio, hawliau'r claf i fanteisio ar barch tuag at eu preifatrwydd a'u hurddas, ac a oes angen sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd er mwyn cyflawni'r amcan. Am wybodaeth bellach ynghylch datgeliadau er budd y cyhoedd, trowch at ein harweiniad.[8]

**17** Gallwch ddatgelu recordiadau dienw neu wedi'u codio i'w defnyddio mewn gweithgarwch ymchwil, addysgu neu hyfforddi, neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud â gofal iechyd heb sicrhau caniatâd. Wrth benderfynu a yw recordiad yn ddienw, dylech gofio bod manylion sy'n ymddangos yn rhai anarwyddocaol yn gallu dynodi manylion y claf. Dylech fod yn arbennig o ofalus wrth sicrhau bod recordiadau o'r fath yn ddienw cyn eu defnyddio neu eu cyhoeddi mewn cyfnodolion a deunyddiau dysgu eraill heb sicrhau caniatâd, os yw'r rhain yn cael eu hargraffu neu os ydynt ar gael mewn ffurf electronig.

### Oedolion heb alluedd – creu recordiadau fel rhan o'u gofal

**18** Os byddwch yn barnu nad yw claf sy'n oedolyn yn meddu ar alluedd[9] i benderfynu ynghylch ymchwiliad neu weithdrefn sy'n cynnwys creu recordiad, rhaid i chi sicrhau caniatâd rhywun sy'n meddu ar awdurdod cyfreithiol i wneud y penderfyniad ar ran y claf[10] cyn creu'r recordiad.

**19** Pan na fydd unrhyw unigolyn yn meddu ar awdurdod cyfreithiol i wneud y penderfyniad ar ran claf, neu pan fo'n rhaid darparu triniaeth ar unwaith, bydd modd creu recordiadau o hyd pan fyddant yn rhan annatod o ymchwiliad neu driniaeth yr ydych yn ei darparu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol neu gyfraith gwlad.[11]

### Oedolion heb alluedd – datgelu a defnyddio recordiadau wedi'u creu fel rhan o'r gofal

**20** Pan fo recordiad eisoes wedi cael ei greu fel rhan o ofal y claf, ond y gallai fod o werth hefyd at ddiben eilaidd, dylech ddileu enw'r unigolyn o'r recordiad neu bennu cod ar ei gyfer pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn bodloni'r diben. Os na fydd modd sicrhau bod y recordiad yn ddienw neu os na fydd modd pennu cod ar ei gyfer, dylech geisio cytundeb unrhyw un sy'n meddu ar y grym cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran y claf. Os nad oes unigolyn wedi cael eu penodi, mae'r gyfraith yn eich caniatáu chi i benderfynu a oes modd defnyddio'r recordiad. Dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ei wneud er budd y cyhoedd, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol neu gyfraith gwlad (gweler paragraff 16).[12]

### Plant neu bobl ifanc – creu recordiadau fel rhan o'r gofal

**21** Gall plant neu bobl ifanc dan 16 oed sy'n meddu ar y galluedd a'r ddealltwriaeth i roi eu caniatâd i recordiad gael ei greu, wneud hynny, ond dylech eu hannog i gynnwys eu rhieni yn y broses o wneud y penderfyniad. Pan na fydd plentyn neu berson ifanc yn gallu deall natur, diben a chanlyniadau posibl y recordiad, rhaid i chi sicrhau caniatâd unigolyn sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant i greu'r recordiad.[13] Dylech ddilyn y cyngor ym mharagraffau 13–14 ynghylch ceisio caniatâd i greu recordiad, ac ym mharagraffau 15–17 ynghylch datgelu a defnyddio recordiadau sy'n cael eu creu fel rhan o'r gofal.

## Recordiadau a gaiff eu creu at ddibenion ymchwil, addysg neu eilaidd

### Casgliadau sy'n bodoli eisoes ac a ddefnyddir at ddibenion addysgu a hyfforddi

**22** Er 1997, mae'n harweiniad wedi gofyn bod meddygon yn sicrhau caniatâd cyn creu recordiadau nad ydynt yn rhan o ofal claf. Fodd bynnag, mae rhai meddygon yn cadw casgliadau o recordiadau a grëwyd dros nifer o flynyddoedd ac a ddefnyddir ganddynt at ddibenion addysgu yn unig o fewn lleoliad meddygol. Gallai rhai recordiadau o fewn y casgliadau hyn, a gynhyrchwyd cyn 1997, barhau i fod o werth arwyddocaol at ddibenion addysgu. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallwch barhau i ddefnyddio recordiadau dienw. Yn ogystal, gallwch barhau i ddefnyddio recordiadau pan fo modd adnabod y claf ohonynt, ar yr amod bod gennych gofnod sy'n nodi bod caniatâd wedi cael ei sicrhau i'r recordiad gael ei greu neu ei ddefnyddio.

**23** Ni ddylech ddefnyddio recordiadau na cheir cofnod ynghylch a sicrhawyd caniatâd ar eu cyfer neu beidio:

- pan y bydd yn amlwg o'r cyd-destun nas rhoddwyd caniatâd i'r recordiad
- pan fo modd adnabod y claf, neu pan allai fod modd eu hadnabod.

### Oedolion sy'n meddu ar alluedd – creu recordiadau at ddibenion eilaidd

**24** Rhaid i chi sicrhau caniatâd cyn creu recordiadau at ddibenion addysgu, hyfforddi, asesu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a myfyrwyr, ymchwil, a dibenion eraill sy'n ymwneud â gofal iechyd. Mae'n arfer da sicrhau caniatâd ysgrifenedig y claf, ond os na fydd hyn yn ymarferol, dylid sicrhau caniatâd y claf ar lafar. Dylid storio caniatâd ysgrifenedig neu gofnod o'r caniatâd a roddwyd ar lafar, gyda'r recordiad.

**25** Bydd recordiadau yn amrywio o ffotograffau syml i recordiadau sain a gweledol o ymgynghoriadau sy'n cynnwys trafodaethau personol ac emosiynol. Bydd swm y gwybodaeth y dylech ei darparu cyn ceisio caniatâd yn amrywio gan ddibynnu ar natur y recordiad, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio, a phryderon y claf unigol. Cyn creu'r recordiad, dylech esbonio:

- tdiben y recordiad a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio
- am ba mor hir y bydd y recordiad yn cael ei gadw, a sut y bydd yn cael ei storio
- y gall cleifion wrthod rhoi eu caniatâd, neu dynnu eu caniatâd yn ôl yn ystod y recordiad neu'n syth ar ôl ei gwblhau, ac na fydd hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal y byddant yn ei gael, neu eu perthynas gyda'r rhai sy'n darparu gofal ar eu cyfer.

**26** Dylech gyfleu'r wybodaeth hon i gleifion mewn ffordd y gallant ei deall. Rhaid i chi ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir gan gleifion mewn ffordd mor gyflawn a gonest ag y gallwch. Dylech ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol y bydd ei angen ar gleifion er mwyn deall y wybodaeth hon, er mwyn cyfleu eu dymuniadau neu er mwyn gwneud penderfyniad. Mae modd gweld cyngor pellach yn nogfen *Gwneud penderfyniadau a chaniatâd*.[14]

**27** Mewn rhai achosion, er nas cynlluniwyd recordiad, byddai recordiad o ddatblygiad annisgwyl yn ystod triniaeth neu ymchwiliad yn cynnig offeryn addysgol gwerthfawr (recordiad heb ei gynllunio). Pan fydd claf yn meddu ar alluedd i roi eu caniatâd, dylech geisio'u cytundeb i greu'r recordiad. Dylech stopio'r recordiad os bydd y claf yn gofyn i chi wneud hynny. Ni ddylech greu recordiadau at ddibenion eilaidd heb sicrhau caniatâd neu awdurdod cyfreithiol arall.

## Oedolion y mae ganddynt gyflyrau a allai amharu ar alluedd

**28** Rhaid i chi asesu galluedd y claf i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y bydd angen ei gwneud. Os na fydd claf yn meddu ar alluedd i wneud rhai penderfyniadau, ni ddylech gymryd yn ganiataol nad ydynt yn meddu ar alluedd i wneud unrhyw benderfyniadau o gwbl, neu na fyddant yn gallu gwneud y penderfyniad yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai na fydd rhai cleifion yn meddu ar alluedd i bwyso a mesur risgiau a manteision triniaethau arwyddocaol, ond efallai y byddant yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid caniatáu i recordiad ohonynt gael ei greu neu beidio.

**29** Cyn penderfynu a yw cleifion yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad, rhaid i chi gymryd yr holl gamau ymarferol a phriodol er mwyn eu galluogi i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain; er enghraifft, trwy ddefnyddio cymhorthion gweledol neu ieithyddol syml, neu thrwy gynnwys gofalwr neu aelod o'r teulu.

**30** Mae modd gweld cyngor pellach ynghylch manteisio'n llawn ar allu claf i wneud penderfyniadau ac asesu galluedd yn nogfen *Gwneud penderfyniadau a chaniatâd*.[15]

## Oedolion heb alluedd

**31** Pan na fydd claf yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad, rhaid i chi weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.[16] Mae hyn yn golygu, wrth wneud unrhyw benderfyniad ynghylch neu ar ran y claf, gan gynnwys creu recordiadau ohonynt at ddibenion eilaidd (ac eithrio dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 33), dylech deimlo'n fodlon bod creu recordiad:

- yn angenrheidiol ac yn cynnig budd neu'r budd pennaf i'r claf
- na fyddai modd cyflawni'r diben mewn ffordd a fyddai'n cyfyngu llai ar hawliau a dewisiadau'r claf.

**32** Pan fydd unigolyn arall yn meddu ar awdurdod cyfreithiol i benderfynu ar ran y claf, rhaid iddynt weithredu'r un egwyddorion cyn rhoi neu wrthod caniatâd.

**33** Mae'r gyfraith yn cynnig rhai eithriadau o'r egwyddorion hyn er mwyn galluogi oedolion heb alluedd i fod yn rhan o waith ymchwil; ac fe allai recordiadau fod yn rhan o waith ymchwil o'r fath. Am gyngor pellach ynghylch cynnwys oedolion heb alluedd mewn gwaith ymchwil, trowch at ein harweiniad *Caniatâd i ymchwilio*.[17]

## Plant neu bobl ifanc

**34** Gall plant neu bobl ifanc dan 16 oed sy'n meddu ar y galluedd a'r dealltwriaeth i roi eu caniatâd i recordiad, wneud hynny, ond dylech eu hannog i gynnwys eu rhieni yn y broses benderfynu. Os na fydd plentyn neu berson ifanc yn meddu ar alluedd i roi eu caniatâd i recordiad a gynlluniwyd neu heb ei gynllunio, mae modd i berson sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant ei roi ar eu rhan. Fodd bynnag, dylech stopio'r recordiad os bydd y plentyn neu'r person ifanc

yn gwrthwynebu ar lafar neu trwy gyfrwng eu gweithredoedd, os byddant yn dangos eu gofid ynghylch y recordiad mewn ffyrdd eraill, neu os bydd y person sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant yn gofyn i chi stopio. Am arweiniad pellach, trowch at *0 – 18 oed: arweiniad i bob meddyg a Caniatâd i ymchwilio*.[18]

**35** Pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi datblygu'r aeddfedrwydd i wneud penderfyniadau ynghylch recordiadau drostynt eu hunain, dylech fanteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi i gynnig y dewis iddynt i dynnu'r caniatâd a roddwyd yn flaenorol gan rywun sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant, yn ôl, neu i amrywio'r caniatâd hwnnw:

- os bydd modd neu os y gallai fod modd adnabod y plentyn neu'r person ifanc o'r recordiad
- os bydd yn ymarferol resymol i weithredu yn unol â dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc.

## Recordiadau i'w defnyddio mewn cyfryngau cyhoeddus

**36** Yn gyffredinol, mae'r ystyriaethau a nodir ym mharagraffau 16 a 22-27 yn berthnasol i recordiadau i'w defnyddio mewn cyfryngau cyhoeddus hygyrch iawn ac y maent ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus eang; er enghraifft, er mwyn hysbysu neu addysgu'r cyhoedd. Fodd bynnag, ceir rhai materion sy'n ymwneud yn benodol â recordiadau a ddefnyddir yn y cyd-destun hwn, ac fe'u nodir isod.

**37** Rhaid i chi sicrhau caniatâd y claf, a ddylai fod yn ysgrifenedig fel arfer, i'r cam o greu recordiad a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn cyfryngau cyhoeddus hygyrch iawn, os ydych o'r farn y bydd modd adnabod y claf o'r recordiad neu beidio, ac eithrio ar gyfer y recordiadau a restrir ym mharagraff 10.

**38** Mewn rhai achosion, efallai y byddwch yn dymuno cyhoeddi recordiad o glaf a grëwyd fel rhan o'u gofal mewn cyfryngau cyhoeddus hygyrch iawn, er na wnaethoch sicrhau eu caniatâd i hyn ddigwydd ar yr adeg y gwnaethpwyd y recordiad. Pan fo hyn yn digwydd, rhaid i chi sicrhau caniatâd y claf os oes modd adnabod y claf neu os y gallai fod modd adnabod y claf o'r recordiad (gweler paragraff 15). Os yw'r recordiad yn ddienw, mae'n arfer da ceisio caniatâd cyn ei gyhoeddi. Fodd bynnag, os na fydd yn ymarferol gwneud hynny, gallwch gyhoeddi'r recordiad, gan gofio y gallai fod yn anodd sicrhau bod pob nodwedd o recordiad a allai olygu bod modd i unrhyw aelod o'r cyhoedd adnabod y claf ohono, yn cael ei ddileu.

**39** Cyn gwneud unrhyw drefniadau i unigolion neu i sefydliadau recordio cleifion, eu perthnasau neu eu hymwelwyr mewn lleoliad neu gyd-destun gofal iechyd, rhaid i chi sicrhau cytundeb eich corff cyflogi neu gontractio, a chytundeb y sefydliad lle y mae'r cleifion yn cael eu trin os yw hwn yn fan gwahanol. O fewn GIG, bydd angen contract gyda'r gwneuthurwr ffilmiau fel arfer. Os bydd gennych unrhyw amheuon, dylech geisio cyngor eich corff cyflogi neu gontractio; er enghraifft, gan eich adran darluniadau meddygol neu Warcheidwad Caldicott[19] neu rywun cyfatebol.

**40** Os ydych yn ymwneud gyda'r gwaith o recordio cleifion ar gyfer y cyfryngau darlledu, dylech deimlo'n fodlon bod caniatâd y cleifion wedi cael ei sicrhau yn unol â'r arweiniad hwn, hyd yn oed os nad ydych yn gyfrifol am sicrhau'r caniatâd hwnnw neu os nad ydych yn gyfrifol am reoli'r broses recordio. Mae Cod Darlledu Ofcom,[20] sy'n berthnasol i'r holl ddarlledwyr yn y DU, yn gofyn bod caniatâd yn cael ei sicrhau mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r arweiniad hwn.

**41** Yn ogystal, ar ôl i gleifion gytuno i'r cam o greu'r recordiad at ddibenion darlledu, dylech sicrhau eu bod yn deall na fyddant yn gallu stopio'r defnydd dilynol ohono efallai. Os bydd cleifion yn dymuno cyfyngu'r defnydd a wneir o ddeunydd, dylid eu cynghori i sicrhau cytundeb

ysgrifenedig gan gynhyrchydd y rhaglen a pherchnogion y recordiad cyn i'r gwaith recordio gychwyn.

**42** Dylech fod yn arbennig o wyliadwrus ynghylch recordiadau sy'n cynnwys cleifion a allai fod yn agored i niwed gan ymyriadau â'u preifatrwydd a'u hurddas. Os ydych o'r farn bod y recordiad yn rhy ymwthiol neu'n rhy niweidiol i fuddiannau'r claf, dylech godi'r mater gyda'r claf a chynhyrchwyr y rhaglen, hyd yn oed pan fo'r claf wedi rhoi eu caniatâd i'r recordiad. Os byddwch yn pryderu am y mater o hyd, ni ddylech gydweithredu mwyach gyda'r gwaith.

### Plant neu bobl ifanc heb alluedd

**43** Pan na fydd plant neu bobl ifanc yn meddu ar alluedd i benderfynu ynghylch recordiad, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 34.

**44** Ni ddylech gymryd rhan mewn gweithgarwch i greu neu ddatgelu recordiadau o blant neu bobl ifanc heb alluedd, pan fyddwch o'r farn y gallai creu'r recordiad, ei ddatgelu neu ei ddefnyddio beri niwed neu ofid iddynt, hyd yn oed os bydd person sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant wedi rhoi eu caniatâd.

### Oedolion heb alluedd

**45** Rhaid i chi ystyried bod creu recordiadau o oedolion heb alluedd, a defnyddio neu ddatgelu recordiadau o'r fath, yn faterion ar wahân. Wrth benderfynu a ddylid creu recordiad i'w ddefnyddio mewn cyfryngau cyhoeddus hygyrch iawn, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 31-32.

**46** Gall recordiadau o gleifion heb alluedd ac y maent yn oedolion, ac a grëwyd yn unol â'r gofynion cyfreithiol a nodir ym mharagraff 31, gael eu datgelu i'w defnyddio yn y cyfryngau cyhoeddus pan fydd modd cyfiawnhau hyn er budd y cyhoedd. Pan fydd person yn meddu ar awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y claf, bydd angen iddynt asesu a phenderfynu a oes modd cyfiawnhau'r datgeliad er budd y cyhoedd. Pan na fydd unrhyw un yn meddu ar awdurdod cyfreithiol i wneud yr asesiad hwn, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 16.

## Cleifion a fu farw

### Recordiadau a gafodd eu creu pan oedd y claf yn fyw

**47** Mae'r ddyletswydd gyfrinachedd yn parhau ar ôl i glaf farw. Mae *Cyfrinachedd* [21] yn cynnwys arweiniad ynghylch datgeliadau yn dilyn marwolaeth claf. Dylech barchu dymuniadau hysbys claf yn dilyn eu marwolaeth. Er enghraifft, os gwnaethpwyd recordiad gyda chaniatâd y claf at ddiben penodol, megis ymchwil neu hyfforddiant, neu er mwyn ei ddarlledu mewn rhaglen ddogfen, gallwch ddefnyddio'r recordiad yn unol â chaniatâd y claf pan na fydd gennych unrhyw reswm dros gredu bod y caniatâd wedi cael ei dynnu yn ôl cyn iddynt farw. Gallwch ddefnyddio recordiadau dienw a gafodd eu creu pan oedd y claf yn fyw (gweler paragraff 17).

**48** Fodd bynnag, os bydd y recordiadau yn eiddo i'r cyhoedd neu os bydd modd adnabod y claf ohonynt, bydd angen i chi ystyried a ddylid ymgynghori gyda theulu'r claf; er enghraifft, os bydd recordiad yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr genetig, neu wybodaeth arall am deulu'r claf. Mewn achosion o'r fath, dylech geisio cyngor cyfreithiol gan eich corff cyflogi neu gontractio, neu gan eich sefydliad amddiffyn meddygol.[22]

### Archwiliadau post-mortem

**49** Caiff archwiliadau post-mortem eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth yn y DU.[23] Dylech sicrhau eich bod yn cydymffurfio gyda'r gyfraith, gan ddilyn unrhyw god ymarfer perthnasol.

**50** Gall recordiadau fod yn rhan annatod o archwiliad post-mortem ac ni fydd angen caniatâd ar wahân ar gyfer creu recordiadau o organau, darnau o'r corff neu sleidiau patholeg er mwyn cynorthwyo i benderfynu achos marwolaeth. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth i berthnasau ynghylch yr archwiliad post-mortem gynnwys esboniad ynghylch pam y bydd angen gwneud recordiad efallai.

**51** Os hoffech wneud recordiadau o'r corff, organau neu feinwe yn ystod archwiliad post-mortem, at ddiben eilaidd fel addysgu neu ymchwil, dylech geisio cael caniatâd ar yr un pryd ag y ceisiwch ganiatâd i gynnal yr archwiliad. Os nad ydych chi wedi rhagweld y posibilrwydd hwn, cewch wneud recordiadau (gan gynnwys ffotograffau o sleidiau patholeg) at ddibenion eilaidd heb ganiatâd, os nad ydynt yn cynnwys delweddau a allai adnabod yr unigolyn.

**52** Nid oes angen ichi gael caniatâd i ddefnyddio recordiadau at ddibenion eilaidd os ydy'r recordiadau'n ddienw cyn eu defnyddio; gweler paragraff 48 i gael arweiniad ar recordiadau o gleifion ymadawedig a allai gael eu cyhoeddi yn eiddo cyhoeddus.

**53** Ar gyfer archwiliadau post-mortem a gynhelir gan grwner, dylech ofyn i'r crwner neu'r Procuradur Ffisgal cyn cymryd delweddau o feinwe yn ystod archwiliad post-mortem at ddibenion ac eithrio'r rhai a awdurdodwyd gan y crwner neu'r Procuradur Ffisgal.

## Creu recordiadau tan gudd

**54** Yr unig adeg y dylid creu recordiadau cudd yw pan na fydd unrhyw ffordd arall o sicrhau gwybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn ymchwilio i drosedd ddifrifol neu er mwyn erlyn rhywun am gyflawni trosedd ddifrifol, neu er mwyn diogelu rhywun rhag niwed difrifol. Gallai hyn godi mewn achosion pan geir rheswm dros amau bod plentyn yn cael eu niweidio gan riant neu ofalwr. Cyn bod modd cynnal unrhyw recordiad cudd, rhaid sicrhau bod hyn yn cael ei awdurdodi gan gorff perthnasol yn unol â'r gyfrait.[24] Os byddwch yn ystyried creu recordiadau cudd, rhaid i chi drafod hyn gyda chydweithwyr, eich corff cyflogi neu gontractio, ac asiantaethau perthnasol, ac eithrio mewn achosion pan fyddai hyn yn tanseilio diben y recordiad, ac os felly, dylech geisio cyngor annibynnol. Rhaid i chi ddilyn arweiniad cenedlaethol neu leol.[25] Ym mwyafrif yr achosion, dylai'r heddlu fod yn gyfrifol am gynnal recordiadau cudd.

**55** Bydd recordiadau cudd yn rhan o gwmpas *Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 neu Regulation of Investigatory Powers (Scotland) Act 2000*, pan fyddant yn cael eu defnyddio gan gorff cyhoeddus, megis corff GIG neu'r rhai sy'n cael eu contractio neu eu cyflogi gan gorff GIG. Os bydd amgylchiadau yn codi lle y gallech fod yn ymwneud gyda recordiadau cudd, rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf berthnasol.

## Recordio galwadau ffôn

**56** Gall galwadau ffôn gan gleifion i sefydliadau gofal iechyd gael eu recordio am resymau cyfreithlon, er enghraifft, at ddibenion meddygol-gyfreithiol, hyfforddiant staff ac archwilio, os cymerwch bob cam rhesymol i roi gwybod i'r galwyr y gallai eu galwad gael ei recordio. O gofio natur sensitif y galwadau i linellau cyngor meddygol neu wasanaethau tebyg, dylech roi sylw penodol i sicrhau bod y galwyr yn ymwybodol y gallai eu galwad gael ei recordio. Mae'n rhaid ichi beidio â gwneud recordiadau cyfrinachol o alwadau gan gleifion.

## Storio a gwaredu recordiadau

**57** Bydd recordiadau sy'n cael eu creu fel rhan o ofal y claf yn rhan o'r cofnod meddygol. Rhaid eu trin yn yr un modd ag y bydd cofnodion meddygol eraill yn cael eu trin, a dylech fod yn eglur ynghylch y cyfrifoldeb dros reoli a defnyddio recordiadau o'r fath. Os byddwch yn creu recordiad at ddiben eilaidd, rhaid i chi fodloni'ch hun bod cytundeb yn cael ei sicrhau ynghylch perchnogaeth, hawlfraint a hawliau eiddo deallusol y recordiad.

**58** Gall recordiadau dienw fod yn berchen i gorff cyflogi neu gontractio. Dylech sicrhau eich bod yn deall eich hawliau cytundebol neu'ch hawliau eraill i gadw a defnyddio recordiadau o'r fath, yn enwedig os byddwch yn newid corff cyflogi neu gontractio. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth, dylech geisio cyngor gan Warcheidwad Calidcott neu rywun cyfatebol.

**59** Mae adrannau iechyd y DU yn cyhoeddi arweiniad ynghylch hyd y cyfnod y dylid cadw cofnodion iechyd a sut y dylid cael gwared arnynt. Mae'r arweiniad yn sôn am recordiadau sy'n cael eu creu fel rhan o ofal claf neu fel rhan o waith ymchwil. Dylech ddilyn yr arweiniad os ydych yn gweithio o fewn GIG neu beidio.[26]

## Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad eraill

Mae modd gweld holl arweiniad CMC ar ein gwefan **www.gmc-uk.org/guidance**

e-Learning for Healthcare
**www.e-lfh.org.uk/image_con_policy.html**

Institute of Medical Illustrators
**www.imi.org.uk/intro/home.asp**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
**www.ico.gov.uk/**

*Using mobile phones in NHS hospitals*
(Department of Health, 2009)
**http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130107105354/http:/www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_092812.pdf**

## Ôl-nodion

1 Nid yw hyn yn cynnwys recordiadau o bobl yn eu gweithle a gynlluniwyd i ddangos neu nodi peryglon galwedigaethol.

2 Nid yw'r arweiniad hwn yn cynnwys recordiadau CCTV o safleoedd cyhoeddus mewn ysbytai a meddygfeydd, y maent yn destun canllawiau ar wahân gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

3 Gwybodaeth wedi'i chodio – a elwir gwybodaeth ffugenwol hefyd – yw gwybodaeth na fydd modd i'r derbynnydd adnabod unigolion ohoni, ond sy'n galluogi gwybodaeth am wahanol gleifion i gael ei gwahaniaethu neu i wybodaeth am yr un cleifion gael ei chysylltu dros gyfnod o amser, er enghraifft er mwyn nodi sgil-effeithiau cyffur. Efallai y bydd yr unigolyn neu'r gwasanaeth a wnaeth godio'r wybodaeth yn cadw 'allwedd', fel bod modd ei hail-gysylltu â'r claf.

4 Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, er enghraifft, Deddf diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Freedom of Information (Scotland) Act 2002, a'r ddeddfwriaeth galluedd meddyliol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Os bydd gennych chi amheuaeth am eich

5 Dylech geisio cyngor gan eich corff cyflogi neu gontractio ynghylch sut i droi at a chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau lleol; er enghraifft, gan eich adran eglurhadau meddygol lleol, neu Warcheidwad Caldicott neu rywun cyfatebol.

6 Gweler rhan 2 Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd am gyngor ynghylch gwneud penderfyniadau am ymchwiliadau a thriniaeth, gan gynnwys rhannu gwybodaeth gyda chleifion.

7 Mae Adran C Data Protection Technical Guidance – Determining what is personal data (pdf) (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2007) yn delio â sicrhau bod gwybodaeth yn ddienw.

8 Mae paragraffau 36-56 Cyfrinachedd yn cynnig cyngor ynghylch gwneud datgeliadau er budd y cyhoedd, gan gynnwys arweiniad ynghylch datgeliadau er budd y cyhoedd at ddibenion ymchwil a dibenion eilaidd eraill.

9 Rhoddir arweiniad pellach ynghylch asesu galluedd yn Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.

10 Atwrneiod lles a gwarcheidwaid a benodir gan lys (yr Alban); deiliaid atwrneiaethau arhosol a dirprwyon a benodir gan lys (Cymru a Lloegr).

11 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ymwneud â gwneud penderfyniadau am driniaeth a gofal ar gyfer cleifion heb alluedd yng Nghymru a Lloegr, ac yn yr Alban, Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000 sy'n delio â hyn. Yng Ngogledd Iwerddon, nid oes deddfwriaeth sylfaenol berthnasol ar hyn o bryd, ac mae'r gyfraith gyffredin yn llywodraethu gweithgarwch penderfynu ar ran cleifion heb alluedd. Adeg cyhoeddi hwn, mae fframwaith deddfwriaethol ar gyfer deddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol newydd yn cael ei ddatblygu.

12 Mae paragraffau 13–17 arweiniad atodol Cyfrinachedd: Datgelu gwybodaeth at ddibenion addysg a hyfforddiant (pdf) yn darparu cyngor ynghylch datgelu gwybodaeth bersonol at ddibenion addysg a hyfforddiant ynghylch cleifion heb alluedd.

13 Ceir gwybodaeth bellach am asesu galluedd a materion ynghylch caniatâd i blant a phobl ifanc yn ein harweiniad 0–18 oed: arweiniad i bob meddyg.

14 Darparir arweiniad pellach ynghylch rhannu gwybodaeth ym mharagraffau 18–21 Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.

15 Nodir arweiniad ynghylch materion capasiti yn rhan 3 Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.

16 Gweler troednodyn 11 am grynodeb o'r gyfraith.

17 Ceir arweiniad ynghylch cynnwys oedolion heb alluedd mewn gwaith ymchwil ym mharagraffau 23-35 Caniatâd i waith ymchwil.

18 Ceir cyngor ynghylch cynnwys plant neu bobl ifanc mewn gwaith ymchwil ym mharagraffau 36-40 0-18 oed: arweiniad i bob meddyg. Ceir arweiniad ynghylch yr ystyriaethau penodol mewn perthynas â cheisio a gweithredu ar sail caniatâd i blant neu bobl ifanc gymryd rhan mewn gwaith ymchwil ym mharagraffau 14-20 Caniatâd i waith ymchwil.

19 Mae Gwarcheidwaid Caldicott yn bobl ar lefel uwch o fewn GIG, gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, a sefydliadau partner, sy'n gyfrifol am ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth cleifion, a galluogi gweithgarwch rhannu gwybodaeth briodol.

20 Cod Darlledu Ofcom (Rhagfyr 2009).

21 Ceir gwybodaeth bellach am ddatgeliadau yn dilyn marwolaeth claf ym mharagraffau 70-72 Cyfrinachedd.

22 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu arweiniad ynghylch rheoli gwybodaeth am yr ymadawedig (pdf).

23 Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoleiddio meinweoedd dynol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gan yr Alban ei deddf ei hun, Human Tissue (Scotland) Act 2006. Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn cyhoeddi Cod Ymarfer 3 – Archwiliadau post mortem (2009) a Chod Ymarfer 1 – Caniatâd (2009)

24 Nodir y cynllun ar gyfer awdurdodi yn ss.28-30 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ac ss.5-8 Regulation of Investigatory Powers (Scotland) Act 2000.

25 *Safeguarding children in whom illness is fabricated or induced* (Adran Addysg, Mawrth 2008). Covert Surveillance: Code of Practice (Scottish Government, 2003). Diogelu Plant ag arnynt Salwch Ffug neu Salwch Gwneud (pdf) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

26 Mae Cod Ymarfer GIG: Rheoli Cofnodion (Adran Iechyd, 2006), *Records Management: NHS Code of Practice* (Scotland) (Llywodraeth yr Alban, 2008), Cylchlythyr Iechyd Cymru (2000) 71: For The Record (Cynulliad Cenedlaethol Cymru), a Good Management, Good Records (Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd, Gogledd Iwerddon, 2005) yn cynnwys cyngor ynghylch storio a gwaredu recordiadau sy'n cael eu creu fel rhan o ofal claf neu fel rhan o waith ymchwil.